# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 39. RHIF 2 GORFFENNAF 2017 50c


# COFIO MANCEINION


Canodd y ffôn am wyth o'r gloch y bore wedi'r digwyddiad, y BBC ym Mangor yn gofyn a fyddwn yn barod i fynd ar y radio ymhen ychydig. Na meddwn innau, beth allwn i ddweud a fyddai o unrhyw bwys? 'Doedd dim deuddeg awr wedi mynd heibio ers y ffrwydrad, minnau yn gwybod ddim mwy nag a glywais ar y newyddion awr ynghynt. Mae'n cymeryd amser i erchylltra y digwyddiad suddo i mewn i'r ymwybod wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg. Buan iawn y bu i'r cyfryngau torfol ddisgyn ar y ddinas a gyrru lluniau ar draws y byd, dyna yw eu natur. Fy nheimlad i oedd cadw i ffwrdd, ond ar y trydydd dydd cefais fy nhynnu i ymweld â sgwar St Ann lle 'roedd pobol wedi bod yn gosod blodau er cof am y rhai a gollodd eu bywydau a'r teuluoedd sydd mewn galar. Anodd oedd sefyll yno heb ddeigryn ddod i'r llygad wrth weld pobol o bob oed mewn rhes hir yn disgwyl eu tro i ychwanegu blodau at y cannoedd oedd yno yn barod. Mewn ffordd na allaf ei egluro yr oedd y ddefod ddistaw yma yn cyffwrdd mwy nag y gallai unrhyw araith.

Sut mae pobol Manceinion yn ymateb i'r fath ddigwyddiad? Fel pobol pob tref a dinas arall y tybiwn i – gan glosio at ein gilydd, gwrthod cael ein dychryn, ac yn benderfynol o gario ymlaen gyda'n ffordd o fyw.

*Elwyn Evans*



*Dr. Gwyn Evans, Weston Rhyn a leisiodd gydymdeimlad Henaduriaeth Gogledd-Ddwyrain gyda teuluoedd galar a dioddefaint Nos Lun, 22 Mai ym Manceinion.*



*Mr. Elwyn Evans yn coffáu dau o Gymry da Manceinion a'r cyffiniau – Mr a Mrs Clifford Evans.*

## O Sgwâr St. Ann, Manceinion









***Blodau Cariad a Chydymdeimlad***

*Lluniau gan Elwyn Evans o St. Ann a Dr. J. G. Williams o Wrecsam*

Golygyddol

# CYFLAFAN MANCEINION

## gan D. Ben Rees

Gan mae'r *Angor* yw papur bro Cymry Manceinion a'r cyffiniau addas yw i'r golygyddol hwn drafod y gyflafan a gymerodd le yn y ddinas ar Nos Lun, Mai 22, 2017 ar derfyn cyngerdd Ariana Grande. Nid oeddwn erioed wedi clywed sôn amdani hi ond y mae'n amlwg ei bod yn eilun plant o saith oed i bobl ieuainc yn ei dau ddegau, ac yn bennaf merched. Y mae'n amlwg hefyd yn ffenomenon gan fod ei hymddangosiad ar lwyfan y Neuadd fawr, a ddeil ugain mil o bobl yn golygu gwerthu pob sedd fisoedd ymlaen llaw. Sylweddolais fod cefnogwyr ganddi yn Ynysoedd Orkney a Shetland, yng Ngogledd Cymru (er enghraifft, Abergele, Dolgellau, Pwllheli) a thrwy y Deyrnas Unedig i gyd. Clustfeiniais ar rai o'i chaneuon a bydd yn rhaid cael gafael arnynt i weld pam fod plant ar eu tyfiant a ieuentid cynnar yn cael cymaint o fwynhad i wrando arni.

Ond diffoddwyd y cyfan pan gyrhaeddodd bachgen ifanc 22 mlwydd oed o gefndir Libya i'r cyntedd gyda bag ar ei ysgwydd a bom yn ei gesail yn barod i'w ffrwydro. Enw'r hunan-fomiwr oedd Salman Abedi, ail fab i gefnogydd trais yn Libya. Cafodd ei rieni loches ym Mhrydain pan yr oeddynt yn brwydro yn erbyn unben Libya, Cyrnol Gadaffi. Magwyd Salman mewn cartref ym Manceinion lle yr oedd lladd a thrais a mynychu Mosg yn dderbyniol, yn wir dywedodd ei dad mai nid Salman a ffrwydrodd y bom ym Manceinion ond aelodau o Brydain sydd yn perthyn i'r heddlu cudd. Troi'r ffaith ar ei ben a chofleidio ffaith ffug fel llawer i fwli arall.

Lladdodd Salman Abedi mewn gwaed oer ef ei hun a 22 arall diniwed, yr ieuengaf yn blentyn wyth oed, a'r mwyafrif mawr yn bobl ifanc oedd wedi edrych ymlaen i fwynhau y digwyddiad. Yn lle hynny cafwyd gofid a gwae a hiraeth a galar. Teuluoedd mewn dagrau a'r cyhoedd yn ymateb yn wyrthiol. Gwelwyd yng nghyflafan Manceinion o leiaf bedwar o ffactorau y gallwn ei hystyried a'u trafod. (Gobeithiwn y daw llythyr neu ddau i grisialu y golygyddol hwn).

1. Daeth daioni a drygioni wyneb yn wyneb â'i gilydd ym Manceinion. Gwelwyd ewyllys da a chymwynasgarwch yn mynnu cael y gair olaf yn hytrach na llysnafedd a chasineb a thrais. Cynigiodd pobl leol ym Manceinion groeso i anwyliaid y plant oedd yn y Cyngerdd i'w cartrefi. Hebryngwyd llawer o'r cefnogwyr adref i'w cartrefi gan yrrwyr tacsi lleol am ddim, ac yn eu plith cwmni tacsi Islamaidd.

2) Bu'r gweithwyr cymdeithasol ar ei gorau, gyrrwyr ambiwlans, yr heddlu, a'r nyrsus a'r meddygon a'r llawfeddygon a weithiodd ar hyd oriau'r nos i ddwyn gobaith i'r rhai a dderbyniodd glwyfau na allwn ei amgyffred. Agorodd wyth Ysbyty ei drysau a chafodd pob un ofal cariadus a sensitif. Gwelwyd rhieni yn torchi llewys i ofalu ar ôl y 59 a gafodd ei niweidio yn druenus.

3) Daeth arweinwyr y wlad, y Prif Weinidog, Arweinydd yr Wrthblaid, Y Frenhines, Maer newydd Manceinion a'r cyffiniau, Aelodau Seneddol, arweinwyr y crefyddau, artistiaid at ei gilydd i lefaru gobaith a gwynebu gyda'i gilydd yr her i anghofio y frwydr etholiadol am dri diwrnod. Yr unig rai na gadwodd at y dealltwriaeth hynny oedd plaid UKIP a rhaglen *Pawb a'i Farn* S4C o Faesteg ar Nos Iau, 18 Mai. Pam o pam? Oni wyddai Dewi Llwyd, y Cadeirydd, y Panel (oedd yn cynnwys UKIP) a'r Cynhyrchydd am y dealltwriaeth mai bore Gwener, 26 Mai oedd y diwrnod cyntaf i wleidydda.

4) Gwelwyd methiant y gwleidyddion trwy yr holl adeg ar ôl y gyflafan yn arbennig wrth ddadansoddi ar bwy oedd y bai am i'r dihiryn o gymuned Libyiaidd Manceinion wneud y fath beth. Un o wŷr traed ISIS yn y wlad hon ydoedd, er ei fod ef yn teithio o wlad i wlad ers rhai blynyddoedd. Oni ddaeth ef yn ôl i Fanceinion ar 19 Mai ar ôl bod yn Libya, a phum munud cyn iddo chwythu ei hun i ebargofiant ac eraill annwyl gydag ef ffoniodd ei fam ar y mobile a'i frawd yn Libya i ofyn iddynt faddau iddo am y weithred hagr yr oedd ef ei fin ei chyflawni.

Soniais am fethiant y gwleidyddion. Cymerwn arweinydd y Blaid Doriaidd Theresa May i ddechrau. Oni fyddai'n hyfryd pe bai Mrs May wedi cydnabod mai camgymeriad dybryd oedd ei gweithred hi fel Gweinidog Cartref yn lleihau yn arswydus nifer y plismyn ar ein strydoedd. Beirniadwyd hi yn llym ar 19 Mai 2015, dim ond dwy flynedd yn ôl yng Nghynhadledd Ffederasiwn yr Heddlu gan swyddog o Fanceinion, Rhingyll Damian O'Reilly am ei pholisi. Ef oedd enillydd gwobr plisman gorau y gymuned yn 2010 ond erbyn 2015 yr oedd ar fin ymddiswyddo oherwydd y cyfyngu a'r torri lawr ar yr heddlu. Dywedodd yn blwm ac yn blaen wrth Mrs May (ac atgyfnerthir hynny yn y Golygyddol hwn):


*We run the risk here of letting communities down, putting officers at risk and ultimately risking national security.*

Oni ddaeth geiriau O'Reilly yn wir yng nghyflafan Manceinion? Cymerer wedyn arweinydd yr wrthblaid, Jeremy Corbyn a siaradodd yn dda yn y ddadl ar bwy mae'r bai. Iddo ef y mae polisiau y Swyddfa Dramor yn un rheswm am y radicaleiddio enbyd ymysg carfan fach o Islamiaid Prydain. Ond yn anffodus y mae ganddo ef ormod o lwyth i'w gario ac mae'n hen bryd iddo ofyn yn edifarhaol am faddeuant o'i gefnogaeth i fudiadau treisgar yng Ngogledd Iwerddon a Phalestina ugain mlynedd yn ôl. A pheth arall hanner gwir sydd ganddo yn ei ddadl. Cychwynodd terfysgwyr Islam ymhell cyn i Tony Blair golli ei synnwyr a chefnogi y rhyfelgwn o Washington yn Irac yn 2003. Enwaf y grwpiau fel Qutb a Mawdudi gyda'i gweithredoedd ysgeler hyd yn oed cyn dyddiau y chwyldro yn Iran. Onid Ayatollah Khomeini a siarsodd ei ddilynwyr dall a rhoddi iddynt glogyn parchus crefydd Shia? Iddo ef gwaith pob Islamydd (o garfan Shia) oedd brwydro hyd angau yn erbyn y Gorllewin satanaidd. A gweld y dechrau yr ymosodiad arnom, Gristnogion a gwledydd y Gorllewin, pan laddwyd 241 o filwyr Americanaidd yn Beirut yn 1983. Ac felly peidied Corbyn na neb arall ohonom feio y Gorllewin am dyfiant terfysgaeth Islam yn Ewrop. Yr oedd yn bodoli bron ddeugain mlynedd yn ôl!

Rhaid terfynu. Ni orffenais y stori, a bydd yn rhaid dod yn ôl eto i ddadansoddi y sefyllfa argyfyngus a beth a ddylid ei wneud. Dangosodd bobl Manceinion fawredd yn ei gwendid a chyflwynodd y byd cyfan eu cydymdeimlad. Siaradodd hyd yn oed Arlywydd Trump yn gofiadwy a gobeithio y gallwn ni fel papur bro risialu ein cydymdeimlad a'n gofal am deuluoedd galar cyflafan Manceinion, a dyna bwrpas y Golygyddol hwn.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Ar fore Sul, 11 Mehefin bydd selogion Bethania a Bethel yn ymuno yn Eglwys Crist, Crosby Road South i Oedfa Unedig pryd y gweinyddir y Sacrament Swper yr Arglwydd gan Weinidog y ddwy Eglwys. Profiad i'w gostrelu ac i ddiolch o galon am y faint fawr o gael ysbrydoliaeth i'n bywydau. Bu ymateb da o'n plith i Gronfa Hedd Wyn a da clywed fod yr haelioni ymhlith y Cymry mor barod ag erioed. Dyma'r trydydd Cronfa y bu ein Gweinidog yn ei hyrwyddo yn ystod y pedair blynedd diwethaf a bu pob un ohonynt yn llwyddiannus. Cyrhaeddwyd y nod bob tro a llawenydd oedd canfod mwy dros ben. Gwyddom y gwnawn gyrraedd ein nod fel Eglwys tuag at Apêl Phillipines ein henwad. Disgwylir i ni fel Eglwys gasglu £250 tuag at yr achos da hwn cyn diwedd y flwyddyn. Credu yw hanfod cyntaf ein ffydd a gweithredu yw y ffordd i gyflwyno'r ffydd hwnnw o ddydd i ddydd. Cyfarchion o eglwys Bethania, ynys gobaith yng Ngogledd Lerpwl i'r Cymry.



***Miss Iris Hughes-Jones yn derbyn llongyfarchiadau y Parchg. Eric Jones a'r dystysgrif i gydnabod 40 mlynedd o wasanaeth clodwiw***

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Y mae lle gennym i lawenhau yn y ffaith fod Miss Iris Hughes-Jones, Wallasey, wedi cael ei hanrhydeddu gan Gymdeithasfa'r Gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain a gynhaliwyd yng Nghapel y Groes ar ddydd Mercher, 24 Mai. Llongyfarchwyd hi gan Lywydd y Sasiwn, y Parchedig Eric Jones, Bangor.

Cafodd aelodau o Seion y fraint o fod yng nghyfarfod yr Henaduriaeth yn Wrecsam pan ordeiniwyd dau ffrind hoff yn flaenoriaid yng nghapel Bethel, Heathfield Road, sef W. Meirion Evans a Roderick Owen. Duw yn ei fendith a fo yn eu plith. Rydym yn edrych ymlaen i groesawu aelodau o gapeli ardal Betws Gwerfyl Goch i'n gwasanaeth ar bnawn Sul, Mehefin 11 pan fydd y Parch John Barrett yn gwasanaethu. Hyfryd oedd cael cwmni Mrs Dilys Askew, Wallasey yn y gwasanaeth pnawn Sul. Mae wedi mendio dipyn ond yn gorfod cymeryd gofal mawr.




***Miss Iris Hughes-Jones a'i chyfeillion o Seion, Mrs Olwen Jones, Mrs Mair Rees Jones a Mr. Gwyn Jones***

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

"Beth yw Cristnogaeth?" dyma oedd testun y Seiat ar nos Lun 15 Mai a hyn wedi ei seilio ar gyfrol Dennis M. Doyle – *'What is Christianity? A dynamic introduction'* (Efrog Newydd 2016), ac arweiniwyd ni gan ein gweinidog Dr. D. Ben Rees gan edrych i ddechrau ar Gristnogaeth fyd-eang ymysg yr holl grefyddau eraill. Mae Cristnogaeth yn seiliedig ar berson yr Arglwydd Iesu Grist a'i ddysgeidiaeth. Roedd ganddo ddilynwyr yn ei oes ei hun a galwodd ar ddeuddeg ohonynt yn ddisgyblion iddo a helaethwyd ei ddylanwad dros fôr y Canoldir i wledydd y byd pan y'i galwyd

yn Apostolion. Dyma y ffenomen ryfeddaf y canrifoedd gweld criw bychan o ddynion cyffredin yn gadael y cyfan 'i ddilyn y Gŵr'.

Pum can mlynedd i eleni y cychwynodd y diwygiad Protestanaidd o dan ddylanwad Martin Luther. Cofiwn am ddiwygiad 1904 yng Nghymru o dan ddylanwad Evan Roberts. John a Charles Wesley wedyn yn y ddeunawfed ganrif yn sefydlu yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Mae i bob enwad ei safiad ei hun, ond yn addoli yr un Duw ac yn atebol iddo Ef yn y pendraw.

Cafwyd llawer o drin a thrafod a chyfraniad gwerthfawr gan bob un oedd yn bresennol. Noson ydoedd o edrych yn fanwl ar darddiad Cristnogaeth a'r newid drwy'r oesau yn ei hanes.

Cynhaliwyd oedfa ordeinio blaenoriaid Henaduriaeth Gogledd Ddwyrain yng Nghapel y Groes, Wrecsam pnawn a nos Fercher Mai 24. Roedd y ddau a ordeiniwyd yn dod o Eglwys Bethel, sef Roderick Owen a Meirion Evans. Y Parch. Robert Parry fu'n ymddiddan â hwy yn y pnawn gan ganolbwyntio ar dair llythyren C. R. G. – C yn sefyll am ein cefndir o fewn yr eglwys, R y rôl neu y rhan o'u cyfraniad i gynnal yr eglwys a'r G – eu gweledigaeth tuag at ddyfodol yr eglwys.

Cafwyd atebion gonest a chadarnhaol gan y ddau gan bwysleisio y dylem fel eglwys symud ymlaen ac addasu gyda'r oes. Yr un yw'r neges, mae'r ffordd ganddom, ond rhaid ei dangos tu allan i furiau'r eglwys. Cymeradwywyd y ddau i'w hordeinio, a chymerodd hyn ran yng nghyfarfod y nos o dan ofal llywydd y Gymdeithasfa, y Parch Eric Jones, Bangor, y weddi ar ordeiniad gan Dr. D. Ben Rees a'r darlleniad o'r Beibl gan Dr. John Williams o Bethel.

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Iris Hughes-Jones o eglwys Seion, Penbedw ar gyrraedd deugain mlynedd fel blaenores.

Roedd naws gynnes a gobeithiol i'r gwasanaeth arbennig hwn, a chynrychiolaeth dda iawn o eglwysi Bethel, Seion a Bethania i dystio a chefnogi ein cyd-aelodau.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. George Rogers, Deganwy. Bu y teulu yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn ein heglwys. Anfonwn ein cydymdeimlad â Bronwen, Delyth, Ceri a Geraint yn eu profedigaeth.

Diolch i Carys Jones am drefnu eto eleni gasgliad Cymorth Cristnogol, ac hefyd i'r rhai a fu'n casglu amlenni o ddrws i ddrws.

Anfonwn fel eglwys ein cofion annwyl atoch chi sy'n methu â dod i'r oedfaon fel cynt. Mwynhewch tymor yr haf, gallwn oll foliannu Duw a gwerthfawrogi yr holl harddwch naturiol y blodau a'r coed yn ein gerddi a'r parciau yma yn Lerpwl.



***Parchg. Robert Parry yn holi***

# CYSTADLEUAETH Y LIMRIG

Cafwyd ymateb da i'r Gystadleuaeth gyda phedwar ymgais, pob un o Lerpwl, ac felly ni ddarfu yr awen ymhlith Cymry'r ddinas. Dyma'r dasg, llunio llinell olaf i

*Aeth glaslanc o Gymru i Lerpwl*
*A'i Saesneg yn dipyn o drwbwl;*
*Ond cyn pen dau fis*
*Trodd yn Sais iff i'w plis!*
*………………………………….*

a dyma'r llinellau a ddaeth i law

*1) A siarad yr iaith fel Dutch-dwbl!*
*2) A swnio yn dwp – fel ei wncwl.*
*3) A acen y Scouse dros y cwbwl.*
*4) Heblaw ei hiraeth am Lanwrthwl!*

Mae'r wobr rhwng y ddau olaf. Y mae gan Rhif 4 linell dda lle ceir cyfeiriad at yr hyn sydd yn wir bob amser am Gymry a groesodd Glawdd Offa, sef hiraeth. Ysbrydolwyd beirdd Cymraeg Lerpwl i lunio cerddi gyda'r hiraeth mawr am fro mebyd. Ond mae 3 yn dda dros ben – Acen y Scouse dros y cwbwl. Ni allaf roi'r wobr i (3) heb (4) ac felly rhaner y wobr rhwng (3) sef Ken Williams, Gateacre, Lerpwl a (4) Mike Farnworth, Allerton.

Gan fod y gystadleuaeth wedi bod mor rhagorol, trefnir un arall ar gyfer rhifyn Gorffennaf. Anfoner y llinell goll i'r Golygydd yn 32 Garth Drive, L18 6HW neu dbenrees@gmail.com erbyn y dyddiad cau nesaf rhifyn Awst/Medi.

Y tro hwn defnyddiaf limrig o eiddo y diweddar Brifardd John Evans, Porthmadog a gofir yn dda ar lannau Mersi.

Meddai merch go blaen o Nefyn
"Fe gaf ŵr cyn pen y flwyddyn".
Dyma dd'wedodd hen gono
………………………………
……………………………………

Nid yw'n limrig hawdd, ond y mae yna obaith llongyfarch y buddugol y tro nesaf hefyd.

*Myfyrdod*

# WRTH FYND ADREF

Mae'n adeg dyfodiad yr Ysbryd Glân a mawr ydym yn ymfalchïo ynddo. Yn wir, wrth feddwl amdano a'i olud digymar a'i gatholigrwydd ni allaf llai na meddwl am y cynorthwy mae dyn wedi'i gael oddi wrth ein hemynwyr. Edrychwn ar Pantycelyn a'i gyfoeswyr Dafydd Jones o Gaio a Morgan Rhys ynghyd ag Ann Griffiths a rhai eraill diwylliedig fel Handel, Haydn, Schubert a mewn celfyddyd Michaelangelo, Leonardo da Vinci. Ond i mi y mwyaf o bawb ydyw Esgob William Morgan a gyfieithodd y Beibl. Cofio fy nhaid yn dweud wrthyf fod "Geiriadur Charles" yn cofnodi mai yn ei feddwl ei hun y cymhellwyd ef i gyfieithu'r Beibl. Ni chafodd unrhyw gymhelliad gan unrhyw ddyn ond oddi wrth yr Arglwydd. Byddaf yn dotio at yr artistri ysblennydd, yr iaith a'r darluniau fel sydd yn Salm 104 - godidowgrwydd natur a'r storm hyrddiol yn Salm 107 – y Gofal Anweledig yn Mathew 6 – a hanes Elias yn 1 Brenhinoedd 19 – I roi ond ychydig o enghreifftiau. Mae un hanes tu hwnt iddynt i gyd sef y ddau gefnogydd yn mynd adref i Emmaus yn Efengyl Luc. Dyma, mi greda i, ydy un o'r hanesion prydferthaf yn llenyddiaeth crefyddol y byd. Pob clod i'r Esgob William Morgan am ei gyfeithiad o ddarn perffaith o lenyddiaeth.

Stori syml iawn ydyw am ddau ddyn yn mynd adref o Jerusalem wedi'r Croesholiad a'r Atgyfodiad. Yn sicr fedrwch ddychmygu yr achlysur a'r teimladau wrth ymddiddan am y digwyddiadau ac wrth gerdded yn cwrdd dyn diarth a hwnnw'n cerdded gyda hwy. Un ohonynt oedd Cleophas. Un o Galilea yn ôl pob sôn ac yn frawd i Joseff, tad yr Iesu ac yn ŵr i Mair, chwaer Mair, mam yr Iesu.

Yn yr ymddiddan roedd yn amlwg nad oedd y dyn diarth yn gwybod am yr hyn a ddigwyddodd yn Jerusalem a bod rhai'n tybio a oedd Crist Iesu yn Fesesia. Beth fuasai'r criw bach oedd ar ôl yn feddwl? Roeddynt wedi disgwyl cymaint a'u gobeithion yn uchel ac wedi gweld y cyfan yn cael ei chwalu'n yfflon ar Galfaria. Yma roedd y dyn diarth (ef oedd yr Iesu) "eithr ei llygaid hwy a ataliwyd fel nas adwaenant Ef". Yn hyn i gyd roedd yna obaith gan fod y gwragedd wrth y bedd. wedi cael tystiolaeth fod y bedd yn wag. Fel dywed y Sais *"talk is cheap"* ac mae hynny'n wir am grefydd.

Gofynnodd y Parch J. W. Jones, Conwy, mewn pregeth flynyddoedd yn ôl tybed oeddem yn enwi "O" yn rhy amal mewn pregethau a gweddïau fel ein bod yn siarad "O" allan o'n bywydau? Oes modd, gyfaill, pregethu gormod o Grist a ninnau heb ei adnabod? Yn ôl yr hanes fe gafodd y dyn diarth wahoddiad i gael swper â hwy. Wrth gymeryd ei le wrth y bwrdd "agorwyd ei llygaid ac yr adnabuasent Ef". Mae'r ddau yn cael gorfoledd a llawenydd ar ddiwedd y dydd. O mae'r hanes yn felys tu hwnt. Beth ddysgaf o hyn i gyd ydyw fod yr Iesu bob amser yn agos iawn at y rhai sy'n YMDDIDDAN AC YN SIARAD AG EF. Wrth wneud hyn yn sicr iawn fe cawn EI ADNABOD EF a chael ein sgubo i'r bywyd sy'n llawn o hedd.

***ELWYN PARRY***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# Rhaglen Ddwyieithog yr Ŵyl – 'Black Chair'- y Gadair Ddu

**Bilingual Festival Timetable to remember the centenary of the 1917 National Eisteddfod of Wales in Birkenhead and the genius of Private Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) killed at Pilkem Ridge on 31-7-1917**
**in/yn Ysgol Wirral Hospitals' School (Campws Joseph Paxton, 157 Park Road North, Claughton) ger Birkenhead Park, Penbedw CH41 0EZ**
**ar Ddydd Sadwrn, 9 Medi a Sul 10 Medi 2017 / Saturday 9 & Sunday 10 September 2017.**

**COFIER AM Y CYSTADLAETHAU AGORED**
**Y GADAIR - hardd** am Gerdd /neu Gerddi (dim mwy na 100 llinell) ar y testun Hedd Wyn.
Rhoddir y Gadair gan Gymdeithas Hedd Wyn, Fflanders a hefyd rhodd o £100 er cof annwyl am Alwyn Thomas gan ei rieni Hilda a Brian Thomas.
Anfoner dau gopi o'r gwaith i Dr. D. Ben Rees dbenrees@gmail.com neu benatgarthrive@talktalk.net erbyn 20 Gorffennaf 2017 (dyna oedd y dyddiad i dderbyn y gwaith barddonol yn 1917!) neu i'w gyfeiriad.

**Y DDWY GORON**
*Coron y Beirdd Ifanc* (11-20 mlwydd oed), Cerdd (dim mwy na 50 llinell).
In English on **HERO**, in Welsh at y teitl **ARWR**.
Coronau yn rhoddedig gan Deulu y Diweddar Gwilym Prys Davies a gan Dr. D. Ben a Meinwen Rees, Lerpwl.
*Cynllunir a chreir y Coronau gan John Price sydd yn gyfrifol am Goron Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.*

*Diolch i'r saith beirniad –*
am y Gadair: Prifardd Siôn Aled a Dr. Robin Gwyndaf, beirniaid y Coronau: Yr Athro Deryn Rees Jones ac Eleanor Rees, Aled Lewis Evans, Nan Hughes Parry a Dr. Pat Williams.

Dylid anon y cynhyrchion hyn i'r Ysgwrn, Trawsfynydd, Meirionnydd erbyn 20 Gorffennaf.

**I gael mynediad i'r Ŵyl bydd yn rhaid archebu ymlaen llaw trwy law Dr. Arthur Thomas**

**neu Dr. D. Ben Rees (Ffôn: 0151 724 1989) ac anfon £10 am y Rhaglen.**
**Lle i 250 sydd yn y Neuadd a 300 yn Seion, ac felly rhaid archebu a phwrcasu y Rhaglen (£10) am y Sadwrn a'r Sul, a tocynnau i'r ddau Gyngerdd (£10 am y ddau) ymlaen llaw.**
**Gorau bo gyntaf y ceir yr archebion a'r taliadau. Gellir anfon y sieciau taladwy i Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / neu Merseyside Welsh Heritage Society mor fuan ag y bo modd.**

Disgwylir y tocynnau a'r rhaglen ddwyieithog fod ar werth ar ôl 3 Gorffennaf, 2017.

*Darperir lluniaeth yn yr Ysgol a hefyd ar y Sul yn Festri Seion, Laird Street, a hynny am bris rhesymol.*

*Yr ydym bron yn barod i'ch croesawu.*




***GORFFENNAF***

Dyma ein mis poethaf yn aml. Mae'n amser braf i eistedd yn yr ardd a'i mwynhau. Mae'n syniad da i gadw planhigion yn edrych yn dda trwy dorri'r hen flodau oddi arnyn nhw. Mi fyddan nhw'n blodeuo am gyfnod hwy wrth wneud hynny.

Bydd angen sicrhau bod unrhyw blanhigion newydd yn cael digon o ddŵr – fe wnaiff dŵr golchi llestri yn iawn. Fel y nodwyd y mis diwethaf, mi fydd rhofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth yn talu ar ei ganfed.

**Tasgau**

1. Tacluswch farf yr hen ŵr [clematis] ac unrhyw blanhigion eraill sy'n dringo.
2. Os oes gennych blanhigion mewn ystafell haul, gellir eu gosod yn yr awyr iach dros yr haf.
3. Dyfriwch y planhigion newydd ond byddwch yn ddarbodus efo'r dŵr.
4. Torrwch yr hen flodau oddi ar y planhigion er mwyn ymestyn y tymor blodeuo.
5. Os yw'n well gennych gael corbwmpen [courgette] torrwch y marro yn ifanc.
6. Astudiwch eich catalog er mwyn archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf.
7. Rhowch fwyd i'r lawnt yn arbennig os na roesoch fwyd iddi yn y gwanwyn.
8. Dyma amser da i roi llyfiad o baent i unrhyw waith coed.

**Sychu a Chadw Llysiau**

Os ydych wedi tyfu mwy o lysiau nag sydd eu hangen, mae'n rhaid eu storio nhw'n ofalus.

Torrwch y coesau yn y bore ar ôl i'r gwlith ddiflannu a chyn bo'r haul yn grasboeth. Ni ddylech ddewis ond y dail sy'n berffaith. Mae rhai llysiau yn dirywio'n fuan iawn ar ôl eu casglu. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y siwgr naturiol yn troi'n startsh. Ceisiwch gadw'r bwydydd sy'n rhyddhau ethylen - fala, afocado, bananas, melon, nectarîn, gellyg, eirin gwlanog, eirin a thomatos -ar wahân i flodfresych, ysgewyll, bresych, ciwcymbr, pys a phupur.

Mae pob math o ffa yn rhewi'n dda, hefyd pys, blodfresych gaeaf, ysbigoglys (spinaets) a moron.

Mae'r rhan fwyaf o deulu'r bresych yn gallu aros yn y ddaear tan fod angen eu defnyddio.

Gellir claddu cnydau sydd â gwreiddiau e.e. moron neu fetys, mewn tywod. [Mae llawer i arddwr yn cadw'r rhain yn y ddaear tan ar ôl y Nadolig.]

Mae angen awyr yn yr oergell, felly peidiwch â'i gorlenwi. 3-5 gradd C (37-40 gradd F) yw'r tymheredd iawn.

Golchwch y llysiau cyn eu bwyta, ar ôl iddynt fod yn yr oergell.

Nid yw'n syniad da i gadw tomatos yn yr oergell; mae'n newid eu blas.

**Oeddech chi'n gwybod?**

Fod bresych yn cynnwys cymaint o galsiwm ag sydd mewn llaeth?

Os yw eich ffa dringo yn barod i'w bwyta, fe fyddant yn torri'n hawdd heb blygu.

Mae hadau pwmpen yn llawn o sinc ac yn dda i iechyd y brostad.

Mae banana yn dda i wrthweithio asid yn y stumog.

Mae mwy o fitamin C mewn llysiau gwyrdd tywyll nag sydd mewn rhai gwyrdd golau.

Mae oddeutu 200 o hadau mewn mefusen.

Mae llus yn eich helpu i weld yn y tywyllwch.

*Gyda diolch i Phil o Llais Ardudwy*

*CNOI CIL*

# GORMOD O BWDIN –

## gan Un o’r Bont

Ar hyd y blynyddoedd yr wyf wedi casglu llawer o drysorau. Yn eu plith y mae rhifyn o’r *Observer* dyddiedig 10 Mehefin 1956. Yr hyn sy’n nodedig am y rhifyn hwnnw yw bod y golygydd wedi gweld yn dda i lenwi bron y cyfan o'r gofod gydag adroddiad o araith Khruschof yn ugeinfed gynhadledd Plaid Gomiwnyddol yr Undeb Sofietaidd yn ein dadrithio ynglŷn â Stalin.

Hyd at yr adeg honno nid oeddem wedi clywed dim ond celwyddau am y gŵr hwnnw. Cyn y rhyfel fe ddisgwylid i ni feddwl amdano fel cnaf digywilydd, -- un tebyg i Hitler a Mussolini. Yna, daeth y cyfnod o gydweithio rhyngddo ef a Churchill, a daeth y Cymrawd Stalin yn Marshall Stalin, -- dyn y gallem ei edmygu yn fawr.

Daeth y rhyfel i ben, a dyna Stalin wedi troi yn gythraul eto. Yn awr, diolch i Khruschof, cawsom wybod y gwir amdano. Er hynny fy nheimlad i yw bod nifer o gwestiynau sydd eto heb eu hateb.

Boed hynny fel y bo, ond ystyriwn y newid sydd wedi dod dros yr *Observer*. Pedwar ar ddeg o dudalenau oedd yn y rhifyn hwnnw, ac nid oedd gofod am ddim ond ychydig o bethau bach ar wahan i’r araith fawr. Heddiw, mae rhifyn o’r papur hwnnw yn cynnwys ugeiniau o dudalennau. At hynny, mae pob cwsmer yn derbyn cylchgrawn lliwiedig.

Rhyweth tebyg yw hanes pob un o’r papurau Sul. Mae pob un ohonynt yn cyflwyno i ni ddigon o ddeunydd darllen am fis – a hynny bob dydd Sul. Mae pethau yn wahanol iawn i amser ein tadau a dreuliai ddydd Sul yn darllen y Beibl.

Wrth gwrs mae amrywiaeth syfrdanol yn y papurau mawr hyn – gwleidyddiaeth, byd busnes, theatrau, adolygiadau ar lyfrau, garddio ac yn y blaen.

Yr wyf yn ddigon hen i gofio’r amser pan oedd llawer o bobl yn meddwl na ddylem ni ddim cael papurau newydd ar y Sul o gwbl. Yna, pan euthum i Ffrainc, gwelais fod papurau dyddiol Paris yn ymddangos ar y Sul yr un fath a phob dydd o’r wythnos. Yr unig un oedd yn wahanol yn hyn o beth oedd papur y Catholigion, sef *La Croix* (Y Groes). Deuai hwnnw allan ar y Sul hefyd, ond nid ar ddydd Llun. Ni welai’r cyhoeddwyr unrhyw reswm paham na ddylem gael y papur y Sul, ond pe deuai allan ar dydd Llun, buasai’n rhaid i’r staff weithio ar y Sul i’w gynhyrchu.


Ond paham y mae’n rhaid gwthio cymaint o ddeunydd darllen arnom? Os cawn ni ormod o bwdin, byddwn yn dioddef o ddiffyg traul, ac os cawn ni ormod o ddeunydd darllen ysgafn, byddwn yn dioddef o ddiffyg traul meddyliol. Cawn ddysgu ychydig bach am bopeth, heb wybod dim yn drylwyr. Camgymeriad mawr yr oes hon yw meddwl bod rhaid i bopeth fod ar raddfa fawr.

*“The world is too much with us,”* meddai William Wordsworth yn un o’i sonedau. Beth a ddywedai heddiw? Diffyg cymedroldeb yw pechod parod pob un o’r dyfeisiadau a gawsom yn ddiweddar wedi troi yn felltith oherwydd gormodiaeth. Cawsom radio a theledu, ac i-pad a ffôn symudol, ac mae rhywrai yn mynnu merwino ein clustiau trwy adael i’r taclau hyn redeg o hyd ac o hyd, a hynny heb wrando arnynt, – dim ond i gael cefndir o sŵn.

Cawsom y car modur (y cerbyd di-geffyl ys dywedai ein teidiau) a dyna’r heolydd yn mynd yn fwy peryclus bob dydd am fod gormod o geir, lorïau a faniau arnynt ar yr un pryd. I wneud lle i’r traffig cynyddol, bu rhaid gwneud traffyrdd newydd a defnyddio tir a allasai fod yn dir amaethyddol gwerthfawr.

Bu amser pan oedd modd i ni fynd am wyliau tawel a hyfryd yn rhywrai o wledydd De Ewrop. Bellach mae’r mannau diddorol yn y gwledydd hyn wedi mynd yn swnllyd a chymysglyd bob haf. Beth am fynd ymhellach i’r de, i dawelwch y Sahara?

“Dim iws” meddai un o’m cyfeillion a fu fyw am flynyddoedd yn yr Aifft ac yn Libya, “Mae’r Sahara hefyd yn dechrau cael ei sbwylio gan dwristiaeth.” Druan ohonom!




*Edenbridge*
*Kent*
*25 Mai 2017*

Annwyl Dr. Rees,

**Gŵyl Hedd Wyn – Medi 2017**

Da oedd gweld y cylchgrawn '*Yr Enfys*' cwpwl o wythnosau yn ôl a gallu darllen am ddathlu can mlwyddiant Eisteddfod Birkenhead a cofio am Hedd Wyn. Mae’n bleser felly i anfon siec fach tuag at y gost - achos fe ddefnyddiodd fy rhieni ei enw pan gefais fy ngeni yn Sir Gar, mis Mai 1945. Gyda pob bendith am ŵyl llwyddiannus.

*Heddwyn Jenkins*

*Annwyl gyfaill,*

Estynnir gwahoddiad i chi i ***Ysgol Undydd Dathlu Cymunedau a gynhelir yn Senedd-dy Owain Glyndŵr Machynlleth, ddydd Gwener, 30 Mehefin, 11yb - 4.00 yp***.

Trefnir y digwyddiad gan weithgor Cymunedau Byw Cymdeithas yr Iaith er mwyn trafod datblygu cynllun ymarferol i gymhathu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau.

Mae'r diwrnod yn ymwneud â dathlu'r digwyddiadau diwylliannol sy'n digwydd yn barod a chodi hyder pobl i groesawu dysgwyr a mewnfudwyr i ddigwyddiadau Cymraeg. Bydd nifer o gynrychiolwyr yn bresennol yn ogystal â phresenoldeb gan y Mentrau iaith, Mudiad Dathlu’r Gymraeg a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Rydyn ni’n awyddus iawn i wahodd arweinwyr cymunedol, cynrychiolwyr mudiadau, dysgwyr brwdfrydig ac unrhyw un sydd am greu cynllun er mwyn ymestyn allan at ddysgwyr a mewnfudwyr a’u cymhathu.

Os hoffech chi fwy o wybodaeth am y digwyddiad cysylltwch â mi ar nia.llywelyn@googlemail.com neu 01650 511865.

Gobeithio eich gweld yno, ym mhrif ddinas hynafol Cymru!

*Yn gywir*
*Nia Llywelyn*
*Swyddog Cymunedau Byw,*
*Cymdeithas yr Iaith*

**COFEB I HEDD WYN**

Diolch am lythyr gwerthfawr Mrs Menna Evans, Wyddgrug (*Taro Post, Angor*, cyfol 39, rhif 1, t. 9)

Ie, trist yw'r sefyllfa lle mae gwenithfaen yn cael ei fewnforio o dramor yn hytrach na chael ei gloddio o lethrau mynyddig Meirionnydd. Ond, yn ôl yr arbenigwyr yn y maes ni ellir cael blociau o wenithfaen ar gyfer cofebau gan fod chwareli sy'n dal i weithio yn canolbwyntio ar gynhyrchu cerrig mân (*aggregate*) ar gyfer y diwydiant adeiladu ac i osod ar ein heolydd. Hefyd, mae gan y cwmniau tramor sy'n arbenigo mewn cyflenwi darnau arbennig o wenithfaen, y peiriannau addas, a chostus, sy'n medru naddu y cerrig i'r ffurf a'r mesurau penodol. Dyna yn fyr pam y bu’n rhaid mewnforio o’r India.

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Arthur Thomas,*
*Ysgrifennydd,*
*Cymdeithas Eifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.*

## CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN 2017
## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi
## Cronfa Gŵyl i gofio

**Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a champ y bardd filwr a gollodd ei fywyd yn Pilkem Ridge (31-7-1917) sef Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) o Drawsfynydd a enillodd y Gadair, ac yr ydym am fewnforio carreg o'r India bell i'w goffau ar waelod y Gofeb a gaiff ei lanhau.**
**Cynhelir yr Ŵyl ar Sadwrn, 9 Medi a Sul, 10 Medi 2017 ym Mhenbedw.**

**Rhestr 7 (hyd 31 Mai 2017)**

–Ymateb godidog a diolch o galon i'r canlynol:

1) Margaret Anwyl a Alan Williams, Allerton, Lerpwl .................. £25
2) Mrs Gwenfyl Bain, Allerton, Lerpwl .................. £20
3) Mrs Nerys Vaughan Jones, Aigburth, Lerpwl .................. £20
4) Mrs Lilian Coulthard, Aigburth, Lerpwl .................. £25
5) Mr Alun Owen, Burscough, ger Ormskirk .................. £10
6) Dr. David Humphreys, Kendal, Cumbria .................. £20
7) Catrin, Ann a Elin er cof am eu tad, Gwilym Prys Davies (1923-2017) tuag at y Goron .................. £350
8) Ann Lees, Aigburth, Lerpwl .................. £50
9) Mrs Elizabeth Owen, Halewood .................. £15
10) Olwen a Gwyn Jones, Upton, Cilgwri .................. £50
11) Jim a Elin Boyd, Aughton .................. £50
12) John a Marian Lyons, Knowsley Village .................. £50
13) Ceris Gruffydd, Penrhyncoch, Ceredigion .................. £20
14) Meinwen a D. Ben Rees, Alleron, Lerpwl tuag at gost yr ail Goron .................. £350
15) Mr. David Mawdsley, Bodfari, Dinbych .................. £50
16) Dr. Glynn Morris, Sale, Sir Gaer .................. £25
17) Cefnogydd i Ŵyl Hedd Wyn .................. £50
19) Miss Mairwen Hughes, Rhosmeirch, Môn .................. £50
19) Miss Jane Lloyd Hughes, Llandudno .................. £25
20) Mr Heddwyn Jenkins, Edenbrige, Caint .................. £100

**Cyfanswm .................. £1,355.00**

**Rhestr Haelioni**
**Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) .................. £715.00**
**Rhestr 2 (hyd 31 Rhagfyr 2016) .................. £540.00**
**Rhestr 3 (hyd 31 Ionawr 2017) .................. £443.00**
**Rhestr 4 (hyd 28 Chwefror 2017) .................. £850.00**
**Rhestr 5 (hyd 31 Mawrth 2017) .................. £1,995.00**
**Rhestr 6 (hyd 30 Ebrill 2017) .................. £295.00**
**Rhestr 7 (hyd 31 Mai 2017) .................. £1,355.00**

**Cyfanswm .................. £6,193.00**

Cawsom fis calonogol eto, ac yr ydym bellach yn medru ygwyddo cost glanhau y garreg a gosod enw Hedd Wyn ar waelod y garreg goffa. **Ceir yr wythfed rhestr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau i'r Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, Liverpool L18 6HW pan mae'n gyfleus. Y sieciau i'w llenwi i 'Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi' neu 'Merseyside Welsh Heritage Society'.**


**Diolch am eich caredigrwydd, cydweithrediad a'ch cefnogaeth calonogol darllenwyr Yr Angor, ond cofier fod angen naill ai archeb neu bwrcasu Rhaglen y Dydd cyn 9 Medi oddi wrth un o aelodau y Pwyllgor Gwaith (Dr. Arthur Thomas, Dr. Pat Williams, Dr. D. Ben Rees, Brian Thomas, Elin Boyd, Rachel Gooding a Nan Hughes-Parry).**

## Cystadleuaeth Mis Gorffennaf 2017
# ETO - PWY YDYNT?

1. Rhaid ei weld cyn rhoddi enw iddo (7)
2. Nid oes yr un rheswm iddi newid ei enw (6)
3. Gŵr adnabyddus ddaw o ran o'r India, Goa ac yn Gymro! (4)
4. 'Angel' pen-ffordd, 'Diawl' pen-tan wel, pwy yw'r ddau yma? (5-5)
5. Cafodd hwn fywyd moethus, ti yn siwr? (8)
6. Albert Evan-Jones yn para yr un – nac yn newid ei enw i fod yn emynydd (5)
7. 'Rwy'n ei enni yma (6)
8. Dal Harold – nid ei enw iawn – yn Gaerdydd lle cafodd ei eni, ond nid mewn ffatri siocled! (5-4)
9. Eto, mae hwn, o'r dechrau am ymresymu yn ddwfn (5)
10. Emynydd arall, un o'r Joneses a saith emyn, a drodd yn felyn! (5)

***Anfoner yr atebion i'r Golygydd (erbyn 20 Awst) am wobr***

# CORNEL Y TRYSORYDD
## Gorffennaf 2017



Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Manceinion .................. £100.00
Mra Mrs Brian Thomas, Mossley Hill .................. £20.00
Mr Alun Owen, Burscough .................. £21.00
Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton .................. £30.00
Mrs Alice Jones (Er cof am Hywel), Thingwall .................. £36.00
Miss Marian Prys Davies, Llanfairfechan .................. £20.00
Mrs Mair Jones, Childwall .................. £15.00
Mrs Kath Norton, Woolton .................. £11.00
Mrs Ann Lees, Cressington .................. £31.00
Mrs Mair Roberts, Rhuthun .................. £30.00
Mr Ralph Jones, Conwy .................. £25.00
Mr a Mrs John Lyons, Knowsley .................. £50.00
Mrs Anne Jones, Bebington .................. £25.00
Mr a Mrs Arwel Williams, Roby .................. £25.00
Mrs Gwenfyl Bain, Allerton .................. £15.00
Mrs Nerys Jones, Allerton .................. £15.00
Mrs Morfydd Roberts, Abergele .................. £30.00
Mrs Olwen Jones, Allerton .................. £20.00
Mr a Mrs Roderick Owen, Allerton .................. £25.00
Mrs Lilian Coulthard, Aigburth .................. £25.000
Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun .................. £25.00

**Cyfanswm £594.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# Ar Ben Arall y Bont
## gan D. Ben Rees

Cafodd yr emynydd Elfed (1860-1953) fwy o feirniadu gan ysgrifwyr ac ysgolheigion am ei emynau na nemor neb arall. Bu'r Athro Henry Lewis yn *Y Llenor* yn llawdrwm iawn ar lu o'i emynau. Dinoethodd rai emynau a genir gennych yn gyson fel 'Arglwydd lesu, dysg im gerdded'. Bu yn dweud y drefn hefyd am ei emyn 'I ti dymunwn fyw, o Iesu da' a'r emyn ymbilgar, 'Ein hadfyd gwêl, o Arglwydd Dduw'.

Beirniad arall o blith ein beirdd oedd y Dr. Iorwerth C Peate, Annibynnwr o argyhoeddiad dwfn. Yr emyn a feirniadwyd yn llym gan Dr I C Peate oedd 'Pwy sy'n dwyn y Brenin adref' a'r llinell echrydus yn ei dyb ef ac eraill hefyd 'Hwn fydd mawr tros y llawr' .

Ond ar ôl dweud hyn i gyd mae gan Elfed o leiaf hanner dwsin o emynau na allwn ei gadael allan o unrhyw gasgliad o emynau Cymraeg. Dyma'r dewis:

a) 'Molianned uchelderau'r nef' ar y dôn 'Wiltshire', rhif 67 yn *Caneuon Ffydd*. Galwad i folianu Duw'r Creawdwr a'r Cynhaliwr, ac yn ysbryd y Salmydd, yn galw ar fyd natur i ystyried pwy sydd wedi cynllunio'r cyfan. Y mae'r efengyl yn mynnu torri i mewn, a gwerthfawrogwn y cyfle i 'ganmol cariad Duw'. Emyn gorfoleddus ydyw hwn

b) Yr ail emyn cofiadwy o eiddo Elfed ydyw rhif 200 yn *Caneuon Ffydd*, 'Enaid gwan, paham yr ofni', sy'n adlewyrchu'n rymus ddysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu Grist i'w ddisgyblion. Pobl sy'n pryderu ac ofni ydan ni ar y gorau ac y mae Elfed yn ein hatgoffa o'n Tad nefol yn ei gariad a'i ofal ar ein rhan. 'Duw Cariad yw' yw'r arwyddair a chadwn hwnnw mewn golwg yn wastadol. Meddai'r emynydd:

*Os yw'n gwisgo y blodeuyn*
*wywa'n llwyr*
*gyda'r hwyr,*
*onid chofiai'i blentyn.*

c) Y trydydd emyn gwych o eiddo Elfed ydyw rhif 787 yn *Caneuon Ffydd,* emyn i'w ganu ar y dôn 'Rhys'. Ond dyma emyn gwir gysurlawn sy'n crefu am y tangnefedd a ddaw o fuddugoliaeth Crist yn y Pasg.

*Rho brofi'r hedd a wna im weithio'n dawel*
*yng ngwaith y nef dan siomedigaeth flin,*
*heb ofni dim, ond aros byth yn ddiogel*
*yng nghariad Duw, er garwed fyddo'r hin.*

Dymuniad pob disgybl yw'r dymuniad hwn.

ch) A'r emyn arall sydd yn y rhestr flaen yw rhif 591 yn *Caneuon Ffydd* ar y dôn enwog, 'Moab', sef 'O tyred i'n hiachau,' 'O tyred i fywhau' ac 'O tyred i'n glanhau' sy'n ddyhead am sancteiddrwydd y crediniwr. Emyn llyfn, grymus, a gorfoleddus yw'r emyn sy'n galw ar i'r Ysbryd Glân i gyflawni ei briod waith ar bob un ohonom a gysegrodd ei hun yn ein gwendid i wasanaethu Arglwydd Bywyd. Dyma bedwar emyn i'w drysori.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**


**i) Rhifyn Awst/Medi 2017 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Gorffennaf 2017, – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Hydref 2017** erbyn bore Gwener, 1 Medi, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk.net

**iii) Rhifyn Tachwedd 2017 –** erbyn bore Sul, 1 Hydref, 2017 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 bore trannoeth, felly os postio, i gyrraedd 30 Medi.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# CROESAIR GORFFENNAF




**AR DRAWS**
1 Hel clecs [7]
5 Trugaredd Duw at ddynion [4]
7 Amrywiaeth [5]
8 Curo [6]
9 Rhedegyn araf [7]
10 Yr awr hon [4]
11 Gwella o ran golwg [6]
13 Cymryd enw Duw yn ofer [5]
14 Rhodd werthfawr a gynigir i Dduw [5]
16 Priodi [3]
19 Enw dyn [5]
20 Y person sydd â'r hawl cyfreithiol ar eiddo aelod o'r teulu ar ôl iddo farw [6]

**I LAWR**
1 Cwt ci [5]
2 Heb nerth [5]
3 Siarad dwli [7]
4 Dioddef o brinder bwyd [6]
5 Cân sy'n mynegi hiraeth am un sydd wedi marw [8]
6 Creadur sy'n byw yn y tŷ [7,5]
12 Tref yng ngogledd orllewin Cymru [6]
14 Y fan lle mae afon yn llifo i'r môr [6]
15 Uned i fesur faint o nwy a ddefnyddir mewn tŷ, swyddfa, ayyb [4]
17 Y darn o'r talcen uwchben y llygad, lle mae blew yn tyfu [3]
18 Darn gwastad o bren neu garreg ar waelod ffenestr [3]

# DILYN IESU

Dyna mewn dau air ydyw yr alwad Cristnogol ddoe a heddiw. Nid yw cyhoeddi Person a Gwaith Crist wedi newid yn sylfaenol ers dyddiau pregethau clasurol yr holl enwadau – pregethau Edward Mattthews, David Rees, Llanelli, William Morris, Cilgeran, Edward Morgan, y Dyffryn a Dr Owen Thomas, a'i frawd y ddau yn byw yn Lerpwl. Daliwn i gredu fel pregethwyr yn holl agweddau o weinidogaeth Iesu Grist, ei ddysgeidiaeth ar heddychiaeth, daioni i arall, iachau clefydau, agor llygaid y rhagrithwyr, pwysigrwydd ymprydio, gweddio, ffyddloneb, dweud y gwir, pwysleisio moesoldeb, parch i arall a'r ffoadur, a gweithredu ar lefel addysgol, broffwydol, addolgar ac aberthol. Ond nid wyf eto wedi pwysleisio ei ymgnawdoliad, ei Groesholiad, ei Atgyfodiad, ei Esgyniad, pob un o'r rhain yn haeddu sesiynau cyson i'w trafod gan groesawu pob goleuni a dehongliad.

Dywed yr Iesu yn glir wrthym mai ni yw'r broblem. Dyn a dynes sydd yn lladd ei gilydd a hyd yn oed ei cnawd ei hun, ni sydd yn treisio, dinistrio y da a'r gwerthfawr, yn arbennig yn Syria ond ym mhob cymuned gwelwn bechadusrwydd dynion drwg a merched drygionus a sefydliadau sydd yn dal yn ei ffolineb. Brwydr fawr Cristnogaeth heddiw yw rhwng y ddiwinyddiaeth glasurol Dduw Ganolog wedi ei fynegi yng Nghrist Iesu a'r Ddyneiddiaeth Gristnogol glastwraidd sydd yn apelio'n fawr i aml i grediniwr Galwyd cyfrol Aled Jones Williams a Cynog Dafis yn gyfrol dyneiddiaeth Gristnogol ond gan eraill yn gyfrol Undodiaeth Anghydffurfiol. Mab y Mans a'r Ficerdy yw'r ddau awdur. Pob un o'r ddau yn cael ei temtio i weld yr Iesu fel Dyn da a'r ddau yn cyflawni cymaint o ddaioni i'n bywyd cyfoes fel dilynwyr iddo, Ond i Gristion uniongred nid dyn da mo Iesu Grist ond mab Duw.

Lluniais gofiant 46 mlynedd yn ôl i ddyn da Mahatma Gandhi. Ond nid yw Gandhi ar yr un tir a'r Iesu. Y mae gweinidogaeth Iesu a'i aberth ar Galfaria fryn yn ein denu i Sacrament Swper yr Arglwydd. (Dylid cynnal y Swper bob mis) Yno y plygwn yn ei gwmni. Pan weddiwn trwy eiriolaeth yr Iesu fe gawn ein cyfoethogi ger bron Duw, sylfaen pob peth a gwraidd ein bodolaeth yn y bydysawd. Trown i Epistol at y Rhufeiniaid i'r drydedd bennod i ddeall fel y cawn ni weiniaid trist ein cyfiawnhau trwy Ffydd. Nid oes neb Cyfiawn medd yr Efengyl. Daw cyfiawnder Duw trwy ffydd yn yr Iesu i bawb sydd yn ymddiried. Y gwir ydyw hyn, yr ydym oll wedi methu yn druenus, ac yn 'amddifad o ogoniant Duw' sydd yn ddisgleiriach na'r haul yn ei ysblander. Nid oes neb perffaith ond un, hwn yn ddyfal a ddilynwn. Rhaid cofio fod yn rhaid i ni fynd ati i ddeall geirfa'r ffydd, gobaith, cariad, edifeirewch, maddeuant, mabwysiad, sancteiddhad, ail ddyfodiad, bywyd tragwyddol nefoedd, a holl gymundeb y saint. Rhaid darllen clasuron Cristnogaeth yn Gymraeg, esboniadau W. D. Davies, John Jones (Llanrwst) W. R. Williams Dr John Tudno Williams, Geiriadur Charles, cyfrolau Elfed ap Nefydd Roberts. Ond yn fwy na dim, A ydym wedi clywed galwad Crist? Os nag ydym y mae'n rhaid gofyn Pam? Wrth ddilyn Iesu y mae ein diogelwch. Ef yw'r yr Alffa ac Omega. Ef yw'r Eiriolwr. Dilynwn Ef heb ofn Teyrn na neb dynol.

***D. Ben Rees***

## Adborth i "Gyfrol Goffa Cledwyn Hughes" – *D. Ben. Rees*

**Vaughan Roderick, y BBC yn edrych ar y gyfrol sydd ar ymddangos ym mis Gorffennaf o dan wasg y Lolfa, Talybont, Ceredigion**

Roeddwn yn betrusgar braidd wrth droi at ddarllen y gyfrol hon.

Rwyf yn edmygydd o waith yr awdur yn enwedig ei gampwaith "Arwr Glew y Werin" ynghylch Jim Griffiths ond roeddwn yn ymwybodol hefyd bod Cledwyn wedi bod yn destun bywgraffiad cytbwys a thrylwyr blaenorol gan y diweddar Emyr Price.

Yn y math amgylchiad teg yw gofyn tri chwestiwn.

Ydy gwrthrych y llyfr yn ffigwr sy'n haeddu ail olwg ac oes yna gynulleidfa ar gyfer yr ail olwg hynny?

Ydy'r llyfr yn cynnig ffeithiau newydd ynghylch y testun ac yn cyffwrdd ar agweddau o'i fywyd na chafodd eu cynnwys yn y bywgraffiad gwreiddiol?


Ydy'r awdur yn cynnig persbectif gwahanol o'r gwrthrych i'r un a gafwyd yn flaenorol?

Ceisaf ateb y tri chwestiwn yn eu tro.

O safbwynt pwysigrwydd Cledwyn teg yw dweud bod ei addfwynder personol yn golygu nad yw'n ffigwr 'dadleuol' yn yr un modd a, dyweder, Aneurin Bevan neu George Thomas.

Eto i gyd mae ei bwysigrwydd i wleidyddiaeth Cymru, yn enwedig y Gymru Gymraeg yn ddigamsyniol. Chwaraeodd ran bwysig yn rhai o'r brwydrau a phenderfyniadau wnaeth greu Cymru ein canrif ni. Mae ei fywyd a'i yrfa yn ddiddorol yn eu rhinwedd eu hun ond hefyd yn adlewyrchu rhai o brif themau gwleidyddiaeth Cymru yn yr ugeinfed ganrif megis dirywiad Rhyddfrydiaeth a thwf y Blaid Lafur a'r dadleuon ynghylch statws cyfansoddiadol Cymru.

Nid ffigwr ymylol oedd Cledwyn Hughes – anodd yw deall hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif heb ystyried ei gyfraniad. Tybiaf felly fod yna gynulleidfa ar gyfer bywgraffiad newydd ymhlith y rheiny sy'n cofio'r cyfnod a tho o ddarllenwyr iau sydd â diddordeb yn ein gwleidyddiaeth bresennol.




O safbwynt yr ail gwestiwn mae'n werth nodi bod bywgraffiad Emyr Price wedi ei gyhoeddi cyn diwedd gyrfa wleidyddol Cledwyn. Mae 'na ddegawd ar goll o'r gyfrol felly gan gynnwys elfennau pwysig o gyfnod Cledwyn yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Mae'n ymddangos i mi hefyd nad oedd gan Emyr yr un lefel o fynediad i bapurau Cledwyn ac sydd gan Ben. Mae hynny'n ddealladwy o gofio bod Cledwyn o hyd yn wleidydd gweithgar pan gyhoeddwyd y bywgraffiad cyntaf. Yn sicr mae'r gyfrol newydd yn cynnwys ffeithiau a hanesion y byddai Emyr wedi eu cynnwys pe bai e'n gyfarwydd â nhw.

Mae fy ateb i'r ail gwestiwn yn gadarnhaol felly.

Mae'n ymddangos i mi bod y gyfrol newydd yn cynnig darlun llawer mwy cyflawn o fywyd Cledwyn na'i rhagflaenydd. 'Bywgraffiad gwleidyddol' yw llyfr Emyr – mae Ben, ar y llaw arall, yn edrych ar y dyn yn ei grynswth. Mae 'na ddadansoddi craff a manwl yn fan hyn – yn enwedig ynghylch dylanwad ffydd a 'bywyd capel' ar fywyd Cledwyn.

I grynhoi felly mae bywgraffiad Ben yn un amserol, trylwyr a hynod ddarllenadwy a fyddai'n ychwanegiad pwysig at y corpws o lyfrau yn ymdrin â Chymru'r ugeinfed ganrif.

# CYFARWYDDIADAU / DIRECTIONS

## ar gyfer Gŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw

**Dydd Sadwrn, Medi 9 2017, am 10.30 yn Ysgol Ysbytai Cilgwri, 57 Park Road North / Saturday, Sept. 9 2017 in Wirral Hospitals' School, 57 Park Road North, CH41 0EZ.**

**Merseyrail**
Wirral Line (cangen New Brighton neu West Kirby) o Lime Street neu Central Station, Lerpwl, i orsaf Birkenhead Park. Troi i'r dde wrth fynd allan ac yna ychydig gamau troi i'r dde ar y groes ffordd gyntaf. Dilyn Park Road North hyd at Capel Seion, Laird Street. Mae Park Road North yn mynd i'r chwith gyferbyn a'r Capel. Dilyn yr heol nes cyrraedd yr Ysgol ar y chwith.

Take Wirral line (New Brighton or West Kirby branch) from Lime Street or Central Station to Birkenhead Park station. On leaving the station turn right to the nearby junction. Go right along Park Road North as far as Zion Welsh Chapel, Laird Street. Park Road North goes off to the left. The school is on the left along the road.

**Ceir/Cars**
O Ogledd Cymru. Dilyn yr M53 hyd at Cyffordd 1. Dilyn yr A554 am tua chwarter milltir, wedyn yr A553 ac ymlaen heibio eglwys amlwg St James ac ar hyd Laird Street. Wedi mynd heibio i archfachnad Aldi (ar y dde) troi i'r dde (gyferbyn a Chapel Seion, Laird Street) ac ar hyd Park Road North nes cyrraedd yr ysgol ar y chwith. Mae maes parcio yn yr Ysgol ond mae lle i barcio ar y stryd (ond nid of flaen yr Ysgol), ac hefyd gerllaw, ar y chwith, yn Park Road West.

**From North Wales.** Take M53 to Junction 1. Follow the A554 for some quarter of a mile then the A553, continue forward passing the prominent St James Church. Continue along Laird Street. After passing the Aldi Supermarket, on the right, make right turn into Park Road North. The school is on the left.
Parking in the School grounds or on Park Road North (but away from the School entrance, or along the adjacent Park Road West (left off Park Road North).


**O Lerpwl: Twnnel Birkenhead.** Wrth adael y twnnel cadw i'r dde a dilyn yr arwydd i Wallasey/Hoylake/Dociau. Wedi mynd heibio i TJ Hughes cadw i'r dde a troi i'r dde wrth y goleuadau a dilyn yr A5029. Heibio i'r Orsaf Dân. Troi i'r chwith yn y groes ffordd nesaf a dilyn yr hewl ar hyd ymyl y Parc, ac ymlaen hyd at Laird Street. Mynd i'r chwith gyferbyn a Chapel Seion ac ar hyd Park Road North. Mae'r Ysgol ar y chwith.

**From Liverpool: Birkenhead Tunnel.** On leaving Toll Booth keep right, follow signs to Wallasey/Hoylake/All Docks. After passing TJ Hughes keep in right hand lane. Go right at next junction into A5029. Continue past Fire Station. At next main junction turn left into Conway Street. Continue ahead alongside the Park through junction of Duke Street/Park Road North. Park Road North goes off left opposite Laird Street Welsh Capel. The School is on the left. (See above for parking).

**O Lerpwl: Twnnel Wallasey.** Wrth adael y twnnel cadw i'r chwith a dilyn yr arwyddion i'r A5027. Ymlaen am tua hanner milltir a mynd heibio Gorsaf Birkenhead Park. Ar y groes ffordd nesaf troi i'r dde a dilyn Park Road North (gweler uchod am y gweddill o'r daith).
**From Liverpool: Wallasey Tunnel:** On leaving the Toll Booth keep left following signs for the A5027. After about half mile pass Birkenhead Station on right. Then turn right at junction with Park Road North (see above for remainder of journey).

**Parcio:** Mae lle i tua 50 o geir ym maes yr Ysgol. Hefyd gellir parcio ar hyd Park Road North (ond nid yn union o flaen yr Ysgol) ac hefyd ar hyd Park Road West (troi i'r chwith wedi'r Ysgol).
**Parking:** The School has spaces for some 50 cars. Cars can also park along Park Road North (but not in front of the School), and also in Park Road West (turn left after the School).
**Bydd stiwardiad wrth law i ofalu am y parcio.**
**Stewards will be on hand to assist with parking.**

**Dydd Sul, Medi 10 2017, Capel Seion Laird Street, am 10.45 a 2.00 / Sunday, Zion Chapel Laird Street at 10.45 and 2.00.**
**Awgymir parcio ar Cavendish Road neu Park Road North (gweler y map), ac yn y Parc.**
**Suggest parking along Cavendish Road or Park Road North (see map) or in the Park.**



# *CYMRY GYDA'I GILYDD YN WRECSAM*



***Pobl Bethel a Bethania***
***(o'r chwith i'r dde) Bugail, Dr. D. Ben Rees; Dr. Pat Williams, Nan Hughes Parry, Eirlys a Meirion Evans, John a Beryl Williams, Norma a Roderick Owen, Devida Broadbent a John P. Lyons***



***Cynheiliaid Oedfa yr Ordeinio***
***Rhes gefn: Parch Eric Jones; Dr. Gwyn Evans;***
***Rhes flaen: Iris Hughes-Jones; Roderick Owen; W. Meirion Evans; Dr. D. Ben Rees; Parchg. David Owens***



***Parchg. R. W. Jones, Wrecsam yn cydnabod 50 mlynedd yn y Weinidogaeth ac yn dechrau ar fugeiliaeth ran amser ar Gapel y Berthen, Licswm, Sir y Fflint***

***Y lluniau o eiddo Dr. John G. Williams***


**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn,*
*Y Bala, Gwynedd LL23 7UH*
*07729 960484*